Doeth am Iechyd Cymru
HealthWise Wales

# Taflen Ffeithiau

## Beth yw Doeth am Iechyd?

- Mae Doeth am Iechyd yn astudiaeth ymchwil sy'n ceisio deall iechyd a lles y genedl yn well.
- Bydd yr wybodaeth yn helpu'r GIG yng Nghymru i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Bydd yn rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil iechyd penodol sy'n cael eu cynnal yng  Nghymru.
- Bwriad Doeth am Iechyd yw astudio sut i atal a thrin cyflyrau iechyd hirdymor, fel clefyd y galon, dementia, diabetes,  iechyd meddwl a chanser

## Pwy all gymryd rhan?

- Pawb sy'n 16 oed neu'n hŷn ac yn byw yng Nghymru.
- Mae Doeth am Iechyd eisiau i bobl o bob oed a chefndir ethnig i gofrestru, boed yn heini neu'n sâl.
- Drwy ymweld â doethamiechydcymru.llyw.cym, gallwch gofrestru a gweld yr holiadur ar-lein  Neu ffoniwch 0800 9 172 172 i gofrestru dros y ffôn.

## Beth mae'n ei olygu?

- Ateb arolwg deng munud ar-lein am eich iechyd, ffordd o fyw a lles bob chwe mis.
- Dim ond personél sydd wedi'u hyfforddi a'u hawdurdodi sy'n ymdrin â'r data. Bydd y data ond yn cael eu defnyddio i gefnogi amcanion y prosiect. Ni fydd yr wybodaeth byth yn cael ei rhannu â meddygon neu drydydd parti megis cwmnïau morgais ac yswiriant.
- Bydd data o'r holiaduron yn cael eu cadw'n ddienw a'u hamgryptio. Bydd yr ymchwilwyr yn defnyddio'r data i gael darlun cywir o iechyd y genedl.  Am fwy o fanylion gweler y ffilm wybodaeth 'Diogelu Data.'

## Beth yw Doeth am Iechyd Cymru?

- Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan dîm o ymchwilwyr profiadol o Brifysgol Caerdydd mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe.
- Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r astudiaeth wedi cael ei chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Cymru ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data i sicrhau bod y data yn parhau i fod yn breifat a chyfrinachol.
- Mae'r prosiect yn cael ei fonitro gan Fwrdd Cyflenwi Cyhoeddus. Bydd y grŵp yn goruchwylio ac yn gwarchod buddiannau'r cyhoedd wrth lywio a chynnal ymchwil Doeth am Iechyd.

OGL © Hawlfraint y Goron / Crown copyright 2017 WG29689

GIG CYMRU NHS WALES
CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD
Swansea University Prifysgol Abertawe
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government